

Meini Prawf Ariannu:

Gronfa Waddol Dr Dewi Davies

Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies yn rhoi cymorth i:

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac unigedd gan gynnwys tlodi tanwydd a phroblemau gwledig.
- Prosiectau sy'n gweithio gyda chenedlaethau hŷn i leihau unigrwydd
- Grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi hyrwyddo a dysgu'r Gymraeg a Diwylliant a Threftadaeth Cymru
- Meithrin hyder ac ehangu gorwelion i bobl sydd ag adnoddau cyfyngedig
- Unigolion talentog i wireddu eu huchelgeisiau e.e. bwrsariau, cyfarpar, offerynnau

Grantiau ar gael

- Gall unigolion ymgeisio am grantiau **hyd at £500**
- Gall mudiadau ymgeisio am grantiau **o £500 hyd at £5,000**
- Ble mae angen eithriadol, gellir cynnig grantiau **hyd at £10,000** i sefydliadau

Pwy a all ymgeisio?

- Unigolion, grwpiau a mudiadau sydd yn gweithio gyda phobl sydd yn byw yn y plwyfi isod yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Plwyfi Caerfyrddin yn cynnwys yr ardaloedd canlynol:

Cilrhedyn; Cenarth; Cynwyl Elfed; Penboyr; Llangeler; Llanpumsaint; Llanfihangel Ar Arth; Llanllwni; Llanfihangel Rhos y Corn; Llanybydder

Plwyfi Ceredigion yn cynnwys yr ardaloedd canlynol:

Aberteifi; Y Ferwig; Mwnt; Tremain; Aberporth; Llangoedmor; Blaenporth; Llandygwydd; Llechryd; Brongwyn; Betws Ifan; Penbryn; Troed-yr-aur; Llanfair Tref Helygen; Henllan; Llanfairorllwyn; Bangor Teifi; Llangrannog; Llanwenog; Llandysul; Llangynllo; Llandyfriog

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais y gellir ei chyrchu drwy wefan y Sefydliad Cymunedol Cymru.

Gellir anfon ceisiadau drwy e-bost i grants@communityfoundationwales.org.uk

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau yr aed iddynt cyn cael y llythyr cynnig grant a'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi.
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol/cymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu
- Ni ddyfernir grantiau tuag at gostau lle mae cymorth ariannol ar gael o ffynhonnell arall e.e. ffioedd dysgu lle mae'r ymgeisydd yn gymwys i gael benthyciad i fyfyrwr
- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydynt wedi cael cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen